NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Alo-impiadau nerf a broseswyd i drwsio toriannau nerf ymylol

22 Tachwedd 2017

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda ar gyfer toriannau nerf ymylol mewn bysedd, ond nid oes llawer o dystiolaeth dda ynglŷn â pha mor dda y mae'n gweithio mewn rhannau eraill o'r corff. Nid oes unrhyw bryderon difrifol am ei diogelwch.

Gellir defnyddio'r driniaeth hon ar gyfer toriannau nerf mewn rhannau eraill o'r corff, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda y mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau. Mae hyn oherwydd yr ansicrwydd ynghylch ei chanlyniadau hirdymor a chymhlethdodau difrifol posibl pan gaiff ei defnyddio mewn rhannau eraill o'r corff.

Gall damweiniau neu lawdriniaeth fawr niweidio nerfau, gan achosi poen, llai o deimlad a diffyg symudiad. Os bydd pennau'r nerf a niweidiwyd yn rhy bell oddi wrth ei gilydd i gael eu pwytho at ei gilydd, bydd angen pontio'r bwlch (toriant). Yn y driniaeth hon, caiff nerf sydd wedi cael ei drin yn arbennig (alo-impiad) a gymerwyd oddi wrth rywun ar ôl ei farwolaeth, ei ddefnyddio i bontio'r bwlch. Y nod yw adfer gweithrediad y nerf a niweidiwyd.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2732-6

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights